

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

### Cofnodion cymeradwy y cyfarfod y Fforwm Derbyn Y Swyddfeydd Dinesig, 27 Mawrth 2018

#### Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol (ALI)

Mr R Davies (RD) Rheolwr Grŵp, Busnes, Strategaeth a Pherfformiad  
Mrs D Davies (DD) Prif Swyddog, Gwybodaeth a Chymorth i Ddysgwyr  
Mrs M Treharne (MT) Swyddog Cymorth Ysgolion

#### Cynrychiolwyr Ysgolion

Mr A Slade (AS) Pennaeth, Ysgol Gyfun Porthcawl  
Mrs K John (KJ) Pennaeth, Ysgol Gynradd Bracla  
Mrs R Dixon (RD) Pennaeth, Ysgol Y Ferch o'r Sgêr, Corneli

#### Cynrychiolydd Llywodraethwyr

Mr W Bond (WB) Ysgol Heronsbridge

#### Hefyd yn bresennol yn y cyfarfod

Ms K McDermott (KM) Rheolwr Grwpiau Agored i Niwed

#### 1. Croeso

Croesawodd y cadeirydd KM a'i chyflwyno i aelodau'r fforwm.

#### 2. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mr J Tarran, y Cynghorydd C Smith, Mr J Evans a Ms C Christy ac fe'u derbyniwyd.

#### 3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi 2017

Cafodd cofnodion y cyfarfod eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

#### 4. Cyflwyniad ar grwpiau agored i niwed a phrotocol gwahardd yn barhaol - Keeva McDermott

Hysbysodd KM yr aelodau fod ailstrwythuro mewnol wedi ei gwblhau, gyda'r canlyniad bod gwasanaeth newydd wedi ei greu i gynorthwyo dysgwyr y canfuwyd eu bod yn agored i niwed. Roedd KM wedi cael ei phenodi'n ddiweddar fel Rheolwr y Grwpiau Agored i Niwed, ac roeddent yn y broses o recriwtio nifer o Gydlynwyr Grwpiau Agored i Niwed. Byddai'r cydlynwyr yn ffurfio cysylltiadau agos â Swyddog Lles Arweiniol Addysg (SLIA)

Esboniodd KM y byddai yna system ddwy haen. Mae'r haen gyntaf ar gyfer y gwaith statudol mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal (LAC), Addysg Ddewisol Gartref (EHE), Diogelu Plant a Phlant sydd ar goll mewn Addysg (CME). Bydd y swyddogion yn rhoi cyngor, cymorth a hyfforddiant ym mhob agwedd ar grwpiau agored i niwed.

Mae'r ail haen ar gyfer atgyfeiriadau; fe fydd yna restr hir o feini prawf atgyfeirio megis disgyblion sydd wedi eu gwahardd yn barhaol, lleoliadau LAC a ffoaduriaid newydd i'r sir.

Hysbyswyd aelodau'r fforwm bod y Panel Lleoli Disgyblion presennol wedi chwalu a'r panel yn awr yn cael ei adnabod fel y Panel Mynediad i Addysg. Caiff y panel ei gadeirio gan Lindsay Harvey a/neu Nicola Echanis. Byddant yn gyfrifol am wneud penderfyniadau

cyflymach a sicrhau camau gweithredu a chanlyniadau cynt. Disgwylir hefyd y bydd proses symud dan reolaeth yn cael ei rheoli gan dîm y grwpiau agored i niwed.

Dywedodd KM y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau EHE statudol newydd ym mis Rhagfyr 2018, y byddent yn gosod mwy o ddyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol ac nad monitro disgyblion sy'n EHE yn unig fyddai'r rôl.

#### **5 Ymateb i'r ymgynghoriad ar Bolisi Derbyn drafft yr awdurdod lleol 2019/2020**

Hysbysodd RD yr aelodau mai hon oedd y flwyddyn gyntaf i'r fforwm fabwysiadu'r dull o fynd â'r polisi derbyn i'r Cabinet. Cafodd y polisi ei drafod a'i ddiwygio yng nghyfarfod diwethaf y fforwm ym mis Medi 2017, ac fe'i cyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Hydref 2017. Wedyn, anfonwyd y polisi allan ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol a'r dyddiad cau oedd 31 Rhagfyr 2017. Cadarnhaodd RD na dderbyniwyd atebion a bod yr adroddiad terfynol yn cael ei roi gerbron y Cabinet heddiw.

#### **6 Terfynu barn y Fforwm ar Bolisi Derbyn yr awdurdod lleol 2019/2020**

Cytunodd y fforwm ar y polisi terfynol, yn amodol ar unrhyw newidiadau a gâi eu gwneud gan y Cabinet.

#### **7 Newidiadau arfaethedig i Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig ysgolion (NDC)**

Hysbysodd RD y fforwm fod y newid arfaethedig i'r NDC i ysgolion hefyd yn cael ei ystyried yn y Cabinet heddiw. Nododd y fforwm fanylion y newidiadau.

Derbyniwyd llythyr gan gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Maes yr Haul yn gofyn i'r awdurdod lleol ystyried cynyddu eu PAN o'r newid arfaethedig newydd o 70 i 75. Bu'r awdurdod lleol yn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd ac yn edrych ar y gofod yn yr ysgol i gynyddu'r PAN i 75. Cytunwyd ar hyn ac mae wedi cael ei roi gerbron fel argymhelliad yn adroddiad y Cabinet. Cadarnhaodd RD mai i NDC ysgolion cynradd yn unig y cafodd newidiadau eu gwneud a phe cytunid arnynt y byddent yn dod i rym o 2019/2020.

#### **8 Diweddariad ar adolygiad dalgylchoedd ysgolion**

Hysbysodd RD yr aelodau fod yr awdurdod lleol yn disgwyl i brosiectau moderneiddio ysgolion band A gael eu cwblhau i weld beth fu'r effaith ar yr ysgolion. Y cynnig ar gyfer 2018/2019 yw gwneud cais am gyllid i ddod ag ymgynghorwr i mewn i gynnal astudiaeth ddichonoldeb i edrych ar derfynau ein dalgylchoedd. Efallai na fydd y gwaith yn dechrau tan yr amser hwn y flwyddyn nesaf er mwyn i'r ysgolion newydd gael ymsefydlu. Bydd hyn wedyn yn bwydo i mewn i gynigion band B.

#### **9 Diweddariad ar dderbyniadau statudol**

Rhoddodd MT ddiweddariad ar y rownd gyfredol o dderbyniadau. Anfonwyd llythyrau allan ar 1 Mawrth yn glŷn â'r derbyniadau uwchradd ac roedd rownd derbyniadau i ddsbarth derbyn yn mynd ymlaen ar y pryd, a byddai rhieni'n cael eu hysbysu am leoedd ar 16 Ebrill 2018. Hysbysodd RD y fforwm fod nifer o wrthodiadau wedi digwydd yn Ysgol Gyfun Bryntirion a bod nifer o apeliadau wedi dod i law, fyddai'n cael gwrandawriad ym mis Ebrill.

Esboniodd MT ynghylch y broses apelio ac y bu nifer o apeliadau trosglwyddo o fewn y flwyddyn, oedd wedi cael eu cynnal eisoes ar gyfer Bryntirion ac ysgolion eraill dros y 12 mis diwethaf.

#### **10 Hunanwerthusiad drafft yr awdurdod lleol o ran derbyniadau i ysgolion**

Hysbysodd RD aelodau'r fforwm fod y Cyfarwyddwr wedi trafod hyn yng nghyfarfod diweddar Penaethiaid Uwchradd yr wythnos ddiwethaf. Roedd y gyfarwyddiaeth wedi bod

yn adolygu'r ffordd y maent yn hunanwerthuso. Byddent yn edrych ar fentrau megis Tîm Pen-y-bont ar Ogwr a'r ymgysylltu â Phenaethiaid ynghylch cryfderau a gwendidau.

Roedd RD yn cydnabod nad oeddem wedi gwneud digon cyn hyn i gynorthwyo rhieni gyda derbyniadau ar-lein. Eglurodd RD fod Pen-y-bont ar Ogwr yn lansio'r 'Un Cyfrif'. Byddai nifer o elfennau yn y cyfrif; un o'r rhain fyddai'r ffurflen dderbyn ar-lein. Byddai'r gwasanaeth ar-lein newydd yn caniatáu i aelodau o'r gymuned eu sefydlu eu hunain ar y porth, a byddent yn gallu cael mynediad at nifer o wasanaethau, fyddai'n cynnwys gwneud cais ar-lein am yr holl dderbyniadau statudol yn y dyfodol.

Holodd un o aelodau'r fforwm ynghylch y wybodaeth nad yw ysgolion yn ei derbyn gan yr awdurdod lleol ynghylch trosglwyddiadau o fewn y flwyddyn. Esboniodd RD na allwn roi'r wybodaeth berthnasol ond ar y ffurflen i'r ysgol. Pe bai yna angen am gymorth i'r dysgwr a nodwyd yn y fforwm, byddai'r adran yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r asiantaeth berthnasol, megis cynhwysiant, a byddent hwy wedyn yn cysylltu â'r ysgol. Atgoffodd RD aelodau'r fforwm y gall ysgolion gysylltu â'r ysgol sy'n cael ei gadael yn uniongyrchol oherwydd mai hwy yw rheolwr y data. Pan fydd y dysgwr yn cael ei roi ar y rhestr bydd hefyd yn cael mynediad at y Ffeil Drosglwyddo Gyffredin (CTF), fyddai hefyd yn ffynhonnell gwybodaeth.

#### **11 Adroddiad Blynyddol y Fforwm Derbyn**

Nododd y fforwm fanylion yr adroddiad.

#### **12 Unrhyw Fater Arall**

Nid oedd unrhyw faterion eraill. Cytunwyd i bennu dyddiad ar gyfer cyfarfod yr hydref yn nes i'r amser.